# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022

Amser: 09.16 - 12.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12585

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Alun Davies AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Dyfrig Siencyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>Jeff Smith, Cyngor Tref Aberystwyth<br>Rhys Tudur, Cyngor Tref Nefyn<br>Jano Williams, Cyngor Tref Casnewydd |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2. Datganodd yr Aelodau a ganlyn fuddiannau perthnasol:

- Mabon ap Gwynfor AS
- Carolyn Thomas AS
- Sam Rowlands AS
- Joel James AS

## 2 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 3 - llywodraeth leol

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Y Cynghorydd Jano Williams, Cyngor Tref Trefdraeth
- Y Cynghorydd Jeff Smith, Cyngor Tref Aberystwyth
- Y Cynghorydd Rhys Tudur, Cyngor Tref Nefyn
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cyd-gadeirydd Fforwm Gwledig CLlLC a Chyd-lefarydd CLlLC ar Faterion Gwledig

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas ag ail gartrefi

3.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas ag ail gartrefi.

### 3.2 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r Ddeiseb P-06-1204 Amddiffynnwch bobl Cymru - cymerwch gamau brys ar yr argyfwng tai nawr

3.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r Ddeiseb P-06-1204 Amddiffynnwch bobl Cymru - cymerwch gamau brys ar yr argyfwng tai nawr.

### 3.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 12 Ionawr 2022

3.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 12 Ionawr 2022.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i ail gartrefi - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

5.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 - trafod yr adroddiad drafft

6.1. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, a chytunodd ar nifer o newidiadau.

## 7 Trafod yr ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

7.1. Trafododd y Pwyllgor ei ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau.

## 8 Trafod y flaenraglen waith

8.1. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y flaenraglen waith yn ei gyfarfod nesaf gan fod amser yn brin.